# Risg Buddsoddi a Pherfformiad

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu |
| I.1 | Methiant Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru i sicrhau eu henillion buddsoddi a dargedwyd. | •Tanberfformiad Rheolwyr Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru.<br>•Amodau economaidd a digwyddiadau yn y farchnad niweidiol na ellid eu rhagweld.<br>•Dyraniadau asedau strategol a rhanbarthol amhriodol. | Colli hyder yn Russell a/neu Reolwyr Buddsoddi sy'n arwain at newidiadau a chostau trosglwyddo ychwanegol. | Cydbwyllgor Llywodraethu | •Monitro yn barhaus berfformiad buddsoddiadau, datblygiadau yn y farchnad a rhagolygon economaidd a adroddir gan y Rheolwr Buddsoddi a'r Gweithredwr ac a drafodir mewn cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion<br>• Meincnodi'r is-gronfeydd bob tair blynedd • Adolygiad cyfnodol o Russell Investments gan y Ymgynghorydd Arolygiaeth<br>• Adrodd yn chwarterol ar risgiau hinsawdd a risgiau ESG<br>• Matrics cyfrifoldebau ACS mewn lle.<br>•Ymgysylltiad y Gweithredwr/ y Rheolwr Buddsoddi â Rheolwyr Buddsoddi ac adolygiadau parhaus o'u proses<br>•Diwrnodau rheolwyr wedi'u cynnal gan y Gweithredwr / y Rheolwr Buddsoddi ar gyfer y Gweithgor Swyddogion / Pwyllgorau Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Cyfansoddol | Presennol | 4 | 3 | 12 |  | Dim newid i'r sgôr, byddwn yn parhau i fonitro'r enillion ar fuddsoddiad dros y 12 mis nesaf. Yn dilyn yr adolygiad blynyddol o'r is-gronfa, mae'r Gweithgor Swyddogion a Hymans yn gweithio gyda Russell i ddatblygu fframwaith RAG ar gyfer adrodd perfformiad. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r CBLl cyn cael ei ymgorffori. | Gweithgor Swyddogion |
| | Ariannol | | | Hirdymor | | Targed | 4 | 2 | 8 | | | Ch4 2026 |
| I.2 | Un o Reolwyr Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu / yn gadael y farchnad, gan arwain at golled ariannol i asedau'r bartneriaeth. | •Mae Model busnes y Rheolwr Buddsoddi, rheolaethau mewnol a/neu oruchwyliaeth allanol o'r Rheolwr Buddsoddi yn methu. | Colled ariannol i asedau a ddelir o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi | Mae'r Gweithredwr / y Rheolwr Buddsoddi yn hwyluso:<br>•Monitro rheolwyr buddsoddi'n barhaus<br>• Adolygiad cyfnodol o Russell Investments gan y Ymgynghorydd Arolygiaeth • Mae'r Gweithredwr yn cynnwys canlyniadau diwydrwydd dyladwy parhaus o Russell Investments mewn pecynnau adrodd chwarterol<br>•Holi rheolwyr am eu rheolaethau mewnol, rheoliadau allanol, polisïau olyniaeth/cadw<br>•Ymgysylltiad â Rheolwyr Buddsoddi a'r diwydiant Rheolwyr Buddsoddi<br>•Cynnal rhestr fer o reolwyr amgen addas<br>•Proses adolygu'r is-gronfeydd mewn lle.<br>•Polisi ail-gydbwyso yn ei le.<br>•Matrics cyfrifoldebau ACS yn ei le. | Presennol | 5 | 2 | 10 |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | Ariannol | | | Byrdymor | | Targed | 5 | 2 | 10 | | | Ch4 2026 |
| I.3 | Gallai methiant y ceidwad a benodwyd arwain at fethu rheoli asedau yn briodol ac yna colled ariannol a/neu wybodaeth o ran asedau buddsoddi. | •Cofnodi prisiadau a thrafodiadau asedau yn anghywir.<br>•Diogelu asedau yn anfoddhaol.<br>•Rheolaethau allanol a mewnol yn methu ag atal twyll neu gamddefnydd.<br>•Ceidwad yn methu ac yn gadael y farchnad, gan arwain o bosibl at asedau sownd. | Colled ariannol i asedau a ddelir o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Y Gweithredwr / Gweithgor Swyddogion | •Proses gaffael gadarn wedi'i goruchwylio gan y Gweithredwr •Adolygiad blynyddol o'r ceidwad wedi'i baratoi gan y Gweithredwr a'i gyflwyno i'r Gweithgor Swyddogion<br>•Dadansoddiad o Gofnodion Rheolwyr Buddsoddi yn erbyn Cofnodion y Ceidwad<br>•Monitro perfformiad y ceidwad yn flynyddol<br>•Y ceidwad yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol<br>•Derbyn adroddiadau rheolaethau blynyddol gan Archwilwyr Allanol y Ceidwad | Presennol | 5 | 1 | 5 |  | Amh. | GS / Ymgynghorydd Arolygiaeth |
| | Ariannol | | | Byrdymor | | Targed | 5 | 1 | 5 | | | Ch4 2026 |
| I.4 | Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn nac yn ceisio cyngor buddsoddi arbenigol pan fo'i angen. | •Cynghorydd allanol yn darparu cyngor amhriodol neu anfoddhaol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru.<br>•Partneriaeth Pensiwn Cymru yn anwybyddu cyngor priodol a ddarperir gan gynghorwyr arbenigol.<br>•Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â cheisio cyngor arbenigol. | Penderfyniadau amhriodol yn cael eu rhoi ar waith a allai niweidio perfformiad buddsoddiadau. | Gweithgor Swyddogion / Cydbwyllgor Llywodraethu | •Prosesau caffael cadarn<br>•Hyfforddiant parhaus i aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraeth a'r Gweithgor Swyddogion<br>•Cynghorydd Goruchwylio ar gael i oruchwylio Cyngor Buddsoddi a'r broses o wneud penderfyniadau<br>•Ymgysylltiad â chronfeydd eraill yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i groes-ddilysu addasrwydd cyngor •Matrics cyfrifoldebau ACS yn ei le. | Presennol | 4 | 1 | 4 |  | Amh. | GS/ Ymgynghoriaeth Arolygiaeth |
| | Ariannol | | | Hirdymor | | Targed | 4 | 1 | 4 | | | Ch4 2026 |

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu |
| I.5 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â herio ffioedd rheolwyr, gwerth am arian ac amcanion gorfodol. | •Diffyg gwybodaeth a thryloywder gan Reolwyr Buddsoddi.<br>•Anallu i wirio a herio Rheolwyr Buddsoddi a'u meincnodi o'u cymharu â chystadleuwyr yn y farchnad. | Anallu i sicrhau gwerth am arian i randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Gweithgor Swyddogion | •Monitro ffioedd rheolwyr buddsoddi yn barhaus<br>•Holi'r Gweithredwr, y Rheolwr Buddsoddi a Rheolwyr Buddsoddi am eu ffioedd<br>•Mynnu tryloywder gan Reolwyr Buddsoddi, y Rheolwr Buddsoddi a'r Gweithredwr o ran ffioedd<br>•Adolygu a chraffu parhaus ar adroddiad VFM o Waystone<br>• Meincnodi is-gronfeydd tair blynedd<br>• Adolygiad cyfnodol o Russell Investments gan y Ymgynghorydd Arolygiaeth<br>• Parhau i ymgysylltu â chyrff y diwydiant i adolygu'r holl wybodaeth a dadansoddiad sydd ar gael ar ffioedd rheolwyr buddsoddi | | Presennol | |  | Amh. | GS/ Ymgynghoriaeth Arolygiaeth |
| | | | | | | 2 | 1 | 2 | | | |
| | | | | | | | Targed | | | | |
| | Ariannol | | | Tymor Canolig | | 2 | 1 | 2 | | | Ch4 2026 |
| I.6 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn agored i risg parti i gontract | •Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â monitro ei hamlygiad i bartïon i gontractau a'r tebygolrwydd o ddiffygdaliadau partïon i gontractau.<br>•Ni roddir proses uwchgyfeirio addas i ymdrin ag amlygiad gormodol partïon i gontractau ar waith. | Colled ariannol i asedau a ddelir o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru, costau cyfreithiol posibl, risg i enw da. | Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr/ y Rheolwr Buddsoddi / Y Ceidwad | •Monitro amlygiad partïon i gontractau yn barhaus<br>•Holi'r Gweithredwr, y Rheolwr Buddsoddi, Rheolwyr Buddsoddi a'r Ceidwad am lefel amlygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru i bartïon i gontractau | | Presennol | |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | 4 | 2 | 8 | | | |
| | | | | | | | Targed | | | | |
| | Ariannol | | | Byrdymor | | 4 | 2 | 8 | | | Ch4 2026 |
| I.7 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithredu is-gronfeydd is-optimaidd. | •Caiff amser ac adnoddau annigonol eu neilltuo i ddylunio a datblygu is-gronfeydd.<br>•Nid yw Awdurdodau Cyfansoddol yn cyfleu eu gofynion yn effeithiol a/neu mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chymryd gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol i ystyriaeth.<br>•Ni roddir ystyriaeth ddigonol i werth am arian a/neu arbedion cost.<br>•Caiff is-gronfeydd â graddfa annigonol i sicrhau arbediad cost eu lansio.<br>•Trafodaethau am ffioedd rheolwyr yn aneffeithiol. | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn darparu is-gronfeydd nad ydynt yn sicrhau gwerth am arian / arbediad cost a/neu ofynion buddsoddi'r Awdurdodau Cyfansoddol | Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi | •Defnyddio cynghorwyr niferus i greu is-gronfeydd<br>•Cynnal adolygiad tair-blynedd o'r is-gronfeydd, yn cynnwys maint y buddsoddiad i sicrhau eu bod o faint rhesymol.<br>•Cynghorydd Goruchwylio ar gael i oruchwylio strategaeth fuddsoddi a dyluniad is-gronfeydd Archwiliadau cadw cydbwysedd niferus ar y broses o wneud penderfyniadau a chymeradwyo'r strategaeth fuddsoddi ac is-gronfeydd<br>•Cynhelir dadansoddiad cost a budd cyn lansio pob is-gronfa<br>•Defnydd o raddfa'r Rheolwr Buddsoddi a graddfa Partneriaeth Pensiwn Cymru i gytuno ar y ffioedd gorau posibl i reolwyr<br>•Ymgynghori mynych gydag Awdurdodau Cyfansoddol ar eu gofynion<br>•Dal ased y tu allan i is-gronfa os na fydd ei gynn<br>• Polisi ail-gydbwyso yn ei le<br>• Matrics cyfrifoldebau ACS yn ei le. | | Presennol | |  | Mae cynnydd sylweddol yn parhau yn y maes hwn. Mae'r gweithgareddau allweddol yn cynnwys:<br>• Ystyried dulliau o esblygu is-gronfeydd incwm sefydlog (ymagwedd at fuddsoddi cyfrifol)<br>• Lansio 'vintages' marchnadoedd preifat pellach ar draws dyrannwyr presennol a lansio'r rhaglenni buddsoddi.<br>• Ar 31 Mawrth 2025, mae 75% o holl asedau PCC wedi eu pwlio.<br>• Bydd ystyriaeth bellach yn rhan o Brosiect yr Wyddfa. | Y Gweithredwr/ Rheolwr Buddsoddi / Ymgynghorydd Arolygiaeth |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |
| | | | | | | | Targed | | | | |
| | Ariannol | | | Hirdymor | | 4 | 1 | 4 | | | Ch4 2026 |

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa bresennol | Sgorio | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu |
| I.8 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â rhoi ystyriaeth ddigonol i'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. | •Diffyg gwybodaeth am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.<br>•Diffyg gwybodaeth am sut y gellir rheoli effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.<br>•Presenoldeb gwael mewn digwyddiadau hyfforddi. | Colled ariannol i asedau a ddelir o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r posibilrwydd o asedau sownd. | Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi | • Monitro ystod o fesurau risg hinsawdd a DSG cysylltiedig a'r agweddau cysylltiedig, a adolygu'r drefn fonitro yn erbyn ymarfer gorau sy'n esblygu<br>• Penodi darparwr pleidleisio trwy ddirprwy ac ymgysylltu, sy'n ymgysylltu â rheolwyr a chwmnïau ar sut y maent yn rheoli'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu<br>• Archwiliad o adroddiadau a ddarparwyd gan ac ymgysylltu gyda'r ddarparwr pleidleisio ac ymgysylltu<br>• Cyhoeddi Polisi Buddsoddi Cyfrifol a Pholisi Risgiau yn Sgil yr Hinsawdd<br>• Ymgysylltu â rheolwyr a'u herio yn gyson ar sut y maent yn cymryd y newid yn yr hinsawdd / risgiau yn sgil yr hinsawdd a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i ystyriaeth<br>• Adolygu ac esblygiad Rhaglenni Buddsoddi i gefnogi nodau cynaliadwyedd hirdymor Awdurdodau Cyfansoddol<br>• Datblygu is-gronfeydd a fydd yn galluogi Awdurdodau Cyfansoddol i reoli eu hamlygiad i risgiau yn sgil yr hinsawdd<br>• Digwyddiad hyfforddiant blynyddol yn gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, risgiau yn sgil yr hinsawdd, neu ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ar Gynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru • Adrodd chwarterol ar y risg hinsawdd<br>• Adrodd blynyddol ar y cod stiwardiaeth | Presennol: 4 | Presennol: 2 | Presennol: 8 |  | Mae cynnydd wedi parhau yn y maes hwn yn ystod y 12 mis diwethaf, gan ganolbwyntio ar esblygiad y rheolaethau risg presennol. Mae gweithgareddau allweddol eraill yn cynnwys:<br>• Deialog barhaus gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr agenda hinsawdd a chynaliadwyedd<br>• Creu datrysiad goddefol pwrpasol ar gyfer PPC gan greu mwy o gysondeb<br>• Esblygiad adrodd chwarterol<br>• Trafodaethau ar bolisïau ychwanegol sy'n gysylltiedig â buddsoddi cyfrifol | GS/ Ymgynghorydd Arolygiaeth |
| | Ariannol | | | Hirdymor | | Targed: 4 | Targed: 1 | Targed: 4 | | | Ch4 2026 |
| I.9 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â hwyluso atebion buddsoddi sy'n galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i fodloni eu strategaeth a'u hamcanion buddsoddi. | •Caiff amser ac adnoddau annigonol eu neilltuo i ymgysylltu ag anghenion a gofynion Awdurdodau Cyfansoddol a'u deall.<br>•Nid yw Awdurdodau Cyfansoddol yn cyfleu eu gofynion yn effeithiol a/neu mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chymryd gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol i ystyriaeth.<br>•Nid yw is-gronfeydd wedi'u dylunio yn unol â gofynion Awdurdodau Cyfansoddol.<br>•Nid yw is-gronfeydd yn ddigon hyblyg nac yn gallu newid i fodloni gofynion Awdurdodau Cyfansoddol yn well. | Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gwrthod defnyddio'r ateb buddsoddi a ddarperir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru. O'r herwydd, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyfuno asedau, a allai arwain at ymyrraeth y llywodraeth a/neu chwalu Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Gweithgor Swyddogion / Y Gweithredwr / Y Rheolwr Buddsoddi / Cynghorydd Goruchwylio | •Mae datblygu is-gronfeydd pellach yn eitem sy'n cael blaenoriaeth yng nghynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru<br>• Ymgynghori aml ag Awdurdodau Cyfansoddol ar eu gofynion<br>• Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ar addasrwydd parhaus is-gronfeydd presennol<br>•Defnyddio cynghorwyr niferus i greu is-gronfeydd<br>•Cynghorydd Goruchwylio ar gael i oruchwylio strategaeth fuddsoddi a dyluniad is-gronfeydd<br>•Archwiliadau cadw cydbwysedd niferus ar y broses o wneud penderfyniadau a chymeradwyo'r strategaeth fuddsoddi ac is-gronfeydd<br>•Dogfen adolygu'r is-gronfeydd yn ei lle | Presennol: 5 | Presennol: 3 | Presennol: 15 |  | Gwybodaeth a gasglwyd ar asedau heb eu pwlio a bydd yn cael ei chario ymlaen fel rhan o'r gwaith IM Co. Bydd ystyriaeth yn canolbwyntio ar oruchwylio a hwyluso rhaglenni buddsoddi ychwanegol.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn, felly mae'r risg yn parhau i fod yn uwch na'r targed am y tro. | GS/ Ymgynghorydd Arolygiaeth |
| | Gweithredol / Enw Da | | | Hirdymor | | Targed: 5 | Targed: 2 | Targed: 10 | | | Ch4 2026 |

# *Risg Llywodraethu a Rheoliadau*

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa bresennol | Sgorio | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu |
| G.1 | PPC yn methu cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a chanllawiau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | • PPC yn anymwybodol ac/neu yn anwybyddu'r rheoliadau, canllawiau a diweddariadau diweddar perthnasol<br>• Dim modd o fonitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau<br>• Camddehongli'r modd y mae rheoliadau a chanllawiau yn berthnasol PPC<br>• Adnoddau annigonol i fodloni canllawiau a gofynion rheoliadau; mae hyn yn cynnwys Canllawiau Cronni. | Dirwyon posib, colli sofraniaeth ac effaith negyddol ar enw da'r PCC. | Awdurdod Lletya / Cydbwyllgor Llywodraethu | • Sicrhau fod hyfforddiant digonol yn digwydd<br>• Cynnal mecanwaith i fonitro newidiadau diweddar i reoliadau, a chynnydd tuag at fodloni'r gofynion newydd<br>• Ymgysylltu â chyrff rheoleiddio perthnasol (megis Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun, y Rheoleiddiwr Pensiynau ac MHCLG)<br>• Penodi ymgynghorydd cyfreithiol arbenigol<br>• Mae diweddariadau Rheoleiddio a Llywodraethu yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod o'r GS<br>• Mae'r Gweithredwr yn darparu diweddariadau datblygu rheoleiddiol chwarterol i'r GS<br>• Mae'r PPC wedi hwyluso a chynnal sesiynau hyfforddi â MHCLG a'r SAB yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hefyd wedi cynnal sesiwn hyfforddi yn ymwneud yn benodol â'r rheoliadau a'r canllawiau amrywiol y mae angen i'r PPC fod yn ymwybodol ohonynt, a'r cyrff a'r sefydliadau gwahanol sy'n cynhyrchu canllawiau/rheoliadau perthnasol. | Presennol | | |  | Amh. | |
| | | | | | | 5 | 2 | 10 | | | GS (Is-grŵp cofrestr risg) |
| | | | | | | Targed | | | | | |
| | Gweithredol / Enw Da | | | Tymor Canolig | | 5 | 2 | 10 | | | Ch1 2026 |
| G.2 | Daw PPC yn orddibynnol ar un neu nifer cyfyngedig o benderfynwyr neu gyrff penderfynu | • Mae gan nifer o benderfynwyr neu gorff penderfynu fwlch gwybodaeth sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyfrannu/dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.<br>• Mae adnoddau ac ymrwymiadau eraill yn cyfyngu ar argaeledd a mewnbwn penderfynwyr a chyrff penderfynu perthnasol.<br>• Mae nifer o benderfynwyr neu gorff penderfynu yn derbyn neu'n ennill grym penderfynu gormodol.<br>• Lefelau crynodiad o rym gwneud penderfyniadau na ellir eu cyfiawnhau | Mae PPC wedi'i rheoli'n aneffeithlon. Caiff penderfyniadau anaddas eu gwneud o ganlyniad i ddiffyg her / trafodaeth / mewnbwn ac amrywiaeth barn. | Cydbwyllgor Llywodraethu / GS | • Sicrhau fod hyfforddiant digonol yn digwydd<br>• Penodi Ymgynghorydd Trosolwg i roi cyngor ar strwythur llywodraethu PPC<br>• Caffael a defnyddio ymgynghorwyr a chyflenwyr allanol sy'n ychwanegu / hysbysu / darparu canllawiau ac yn cynnig amrywiaeth barn i'r broses o wneud penderfyniadau<br>• Defnyddio strwythur llywodraethu sy'n sicrhau craffu digonol cyn i benderfyniadau gael eu cymeradwyo<br>• Mabwysiadu strwythur llywodraethu nad yw'n caniatáu lefelau uchel o grynodiad o rym gwneud penderfyniadau<br>• Adolygiad blynyddol o ofynion PPC o ran adnoddau<br>• Cyfarfod bob yn eilflwydd â Byrddau Pensiwn, sy'n cynnig ffynhonnell amhrisiadwy o wybodaeth ac amrywiol safbwyntiau barn<br>• Aelod Bwrdd Pensiwn ar y CBLl<br>• Polisi Hyfforddiant penodol mewn lle<br>• Defnydd o Is-grwpiau pan fydd gofyn am drafodaeth / dadl ychwanegol ar fater penodol<br>• PPC wedi ffurfio llawlyfr llywodraethu sy'n darparu eglurder o ran trefniant llywodraethu PPC yn ogystal ag atgyfnerthu ei strwythur llywodraethu | Presennol | | |  | Amh. | |
| | | | | | | 3 | 1 | 3 | | | GS (Is-grŵp cofrestr risg) |
| | | | | | | Targed | | | | | |
| | Gweithredol | | | Tymor Hir | | 3 | 1 | 3 | | | Ch1 2026 |

| Manylion y Risg | | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu |
| G.3 | Mae PPC yn methu â chadw at ei chyllideb a gytunwyd ymlaen llaw | • Amcangyfrif anaddas o'r gyllideb sydd ei hangen.<br>• Methiant i reoli costau gweithgareddau a ffioedd darparwyr allanol PPC yn effeithiol<br>• Methiant i gynnal dull o fonitro gwariant a'r gyllideb sy'n weddill | PPC yn methu cadw at ei gyllideb y cytunwyd arni ymlaen llaw a/neu monitro annigonol o weithgareddau'r gyllideb. | Awdurdod Lletya / Cydbwyllgor Llywodraethu | | • Monitro gwariant cyfredol a'r gyllideb sy'n weddill<br>• Ymgysylltu â chyflenwyr perthnasol i ganfod a yw'n amser i ffioedd newid ac/neu a yw hynny'n unol â'r disgwyliad<br>• Cymeradwyir y Gyllideb Flynyddol gan yr Awdurdodau Cyfansoddol<br>• Adroddir yn chwarterol i'r CBLl ar amrywiant cyllidebol, fel rhan o ddiweddariad yr Awdurdod Lletya<br>• Yr Awdurdod Lletya wedi rhoi gwiriad ffioedd ychwanegol ar waith ar gyfer ei ymgynghorwyr allanol | Presennol: 4 | 1 | 4 |  | Amh. | Awdurdod Lletya / GS |
| | Ariannol / Enw Da | | | Tymor Byr | | | Targed: 4 | 1 | 4 | | | Ch1 2026 |
| G.4 | Mae PPC yn methu â chadw cofnodion addas; ni chaiff dogfennaeth ei ffeilio mewn modd priodol ac ni chaiff data personol ei gadw'n ddiogel. | • Diffyg gweithdrefnau addas<br>• Gwybodaeth annigonol ynghylch arfer orau o ran sut i gadw data personol, dogfennaeth a chofnodion.<br>• Diffyg systemau addas a datrysiadau TG i hwyluso a chynorthwyo yn y gwaith o gynnal a chadw data personol, dogfennaeth a chofnodion. | Mae PPC yn colli data ac eiddo deallusol gwerthfawr. Ceir effaith negyddol ar enw da PPC. Mae PPC yn gorfod talu cosbau neu ddirwyon ariannol. | Awdurdod Lletya | | • Hyfforddiant parhaus ar arfer orau<br>• Disgwylir i staff perthnasol PPC gwblhau hyfforddiant GDPR<br>• Mabwysiadu porth dogfennau diogel i gadw cofnodion a dogfennaeth perthnasol<br>• Penodi Ymgynghorydd Cyfreithiol i ddarparu arweiniad ar reoliadau perthnasol a'r dehongliad o'r rheoliadau hynny<br>• Ymgymryd ag archwiliad allanol<br>• Rheolaethau mewnol addas ar waith gan yr Awdurdod Lletya, gan gynnwys polisi diogelwch seibr<br>• Mae PPC, ym mhob achos, yn lleihau maint y data personol a brosesir neu a gedwir ganddi. Nid yw'n cadw neu brosesu data unrhyw Aelodau | Presennol: 4 | 2 | 8 |  | Amh. | Awdurdod Lletya |
| | Ariannol / Enw Da | | | Tymor Canolig | | | Targed: 4 | 2 | 8 | | | Ch1 2026 |
| G.5 | PPC yn methu â darparu cyfrifon addas a chywir erbyn y dyddiad cau statudol. | • Diffyg cynllunio addas at gau cyfrifon<br>• Diffyg adnoddau gan arwain at gyfrifon hwyr neu annigonol.<br>• Diffyg gwybodaeth / arbenigedd<br>• Ni all y CBLl roi cymeradwyaeth o ganlyniad i amgylchiadau penodol | Caiff enw da PPC ei effeithio'n negyddol. Cyfeiriad posib at Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun neu MHCLG. | Awdurdod Lletya / Cydbwyllgor Llywodraethu | | • Hyfforddiant parhaus<br>• Proses archwilio wedi'i hamserlennu<br>• Ymgysylltu ag archwilwyr allanol i drafod terfynau amser a chynllunio ymlaen<br>• Lefel briodol o arbenigedd ar gael gan yr Awdurdod Lletya<br>• Ceir archwiliad allanol o'r cyfrifon gan arbenigydd | Presennol: 4 | 1 | 4 |  | Amh. | Awdurdod Lletya |
| | Enw Da | | | Tymor Canolig | | | Targed: 4 | 1 | 4 | | | Ch1 2026 |
| G.6 | Nid yw PPC yn rheoli gwrthdrawiadau buddiant. | • Methiant personél PPC i ddatgan unrhyw wrthdaro posib.<br>• Dim polisi ar waith sy'n amlinell sut y dylid rheoli gwrthdaro buddiannau.<br>• Anallu personél PPC i wahanu buddiannau personél oddi wrth fuddiannau rhanddeiliaid PPC | Gwneir penderfyniadau anaddas nad ydynt er lles gorau rhanddeiliaid PPC. Ceir effaith negyddol ar enw da PPC. Cyfeiriad posib at Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun a MHCLG. | Personél PPC / Cyflenwyr ac Ymgynghorwyr | | • Mae datgan gwrthdaro buddiannau yn eitem sefydlog ar raglen y Cydbwyllgor Llywodraethu<br>• Mae polisi gwrthdaro buddiannau ar waith<br>• Ymgysylltu â chyrff perthnasol megis Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun ar arfer orau a chanllawiau perthnasol<br>• Mae angen i aelodau'r GS hysbysu'r GS ar ddechrau'r cyfarfod os yw eu datganiadau buddiant wedi newid ers y cyfarfod blaenorol; yn ogystal, rhaid darparu cadarnhad ysgrifenedig i'r Awdurdod Lletya. | Presennol: 3 | 1 | 3 |  | Amh. | Awdurdod Lletya / GS |
| | Gweithredol / Enw Da | | | Tymor Canolig | | | Targed: 3 | 1 | 3 | | | Ch1 2026 |

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Risg a Natur y Risg | | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu |
| G.7 | Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gallu gweithredu'n effeithlon neu gyflawni ei dyletswyddau oherwydd digwyddiadau na ellir eu rheoli. | •Nid yw personél Partneriaeth Pensiwn Cymru a/neu gyflenwyr allweddol yn gallu gwneud gwaith oherwydd tân, tywydd eithafol, epidemigion.<br>•System allweddol, systemau TG, dulliau a phyrth cyfathrebu yn methu. | Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gallu gweithio'n effeithlon, nid yw gwaith gofynnol wedi'i gwblhau, ni ellir gwneud penderfyniadau allweddol. Colled ariannol posibl i asedau a ddelir o fewn y bartneriaeth. Hefyd, risg bosibl i enw da neu atgyfeiriad i Fwrdd Cynghori'r Cynllun, y Rheoleiddiwr Pensiynau neu'r MHCLG. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru / Cyflenwyr a Chynghorwyr | •Mae gan yr Awdurdod sy'n Lletya gynllun parhad busnes / adfer ar ôl trychineb ar waith<br>•Gall y rhan fwyaf o bersonél a chynghorwyr weithio o bell<br>•Mecanweithiau cyfathrebu niferus ar waith<br>•Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'u lleoli ar draws sawl lleoliad daearyddol • Mae gan yr Awdurdodau Cyfansoddol eu polisïau, cynllun a gweithdrefnau lleol eu hunain ar gyfer adfer ar ôl trychineb. • Mae gan gyflenwyr allweddol y Bartneriaeth gynlluniau rheoli parhad busnes/adfer wedi trychineb ar waith | Presennol: 4 | 2 | 8 |  | Amh. | Awdurdod Lletya |
| | Ariannol / Enw Da | | | Byrdymor | | Targed: 4 | 2 | 8 | | | Ch1 2026 |
| G.8 | Trefniadau llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn arwain at reoli a gwneud penderfyniadau aneffeithlon. | •Methiant i gymryd canllawiau perthnasol i ystyriaeth o ran llywodraethu da / arfer gorau.<br>•Anallu i ddilyn strwythur a phrotocolau llywodraethu presennol.<br>•Dyletswyddau ac adnoddau yn cael eu dirprwyo yn aneffeithlon.<br>•Nid yw'r strwythur llywodraethu yn caniatáu amser/adnoddau digonol a thrafodaeth am benderfyniadau a materion allweddol. | Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gallu gweithio'n effeithlon, nid yw gwaith gofynnol yn cael ei gwblhau, ni ellir gwneud penderfyniadau allweddol. Colled ariannol posibl i asedau a ddelir o fewn y bartneriaeth. Hefyd, risg bosibl i enw da neu atgyfeiriad i Fwrdd Cynghori'r Cynllun, y Rheoleiddiwr Pensiynau neu'r MHCLG | Gweithgor Swyddogion / Cydbwyllgor Llywodraethu / Cynghorydd Goruchwylio | •Strwythur llywodraethu ar waith ac wedi'i godeiddio yn y Cytundeb Rhyng-awdurdod<br>•Defnydd o strwythur llywodraethu haenog i gynorthwyo wrth flaenoriaethu penderfyniadau allweddol<br>•Cynghorydd Goruchwylio ar gael i gynnig cyngor ar strwythur llywodraethu<br>•Ymgysylltu â chyrff perthnasol ar ganllawiau llywodraethu da ac arfer gorau<br>•Asesiad adnoddau blynyddol i sicrhau y gellir cydymffurfio â'r strwythur llywodraethu<br>•Adolygiad parhaus o'r strwythur llywodraethu<br>• Mae gan PPC fatrics llywodraethu mewn lle sy'n amlinellu'n glir y gwahanol rolau a chyfrifoldebau am wneud penderfyniadau o fewn y Bartneriaeth<br>• Mae Canllaw Llywodraethu PPC yn amlinellu trefniadau llywodraethu PPC, a chaiff y ddogfen hon ei hadolygu'n barhaus i sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth yn parhau i fod yn addas i bwrpas<br>• Mae gan holl weithgorau neu gyrff gwneud-penderfyniadau allweddol PPC eu cylch gorchwyl eu hunain<br>• Mae Cytundeb Rhwng Awdurdod y Bartneriaeth, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol, yn rhoi manylion helaeth ynghylch trefniadau llywodraethu PPC<br>• Mae strwythur llywodraethu PPC yn canolbwyntio ar roi pwerau gwneud penderfyniadau i'r Awdurdodau Cyfansoddol, gyda'r nod o sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion a gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol. | Presennol: 4 | 1 | 4 |  | Amh. | Cynghorydd Goruchwylio |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Hirdymor | | Targed: 4 | 1 | 4 | | | Ch2 2026 |

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Risg a Natur y Risg** | **Achos y Risg** | **Goblygiadau'r Risg** | **Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith** | **Rheolaethau Risg Presennol** | **Difrifoldeb** | **Tebygolrwydd** | **Sgôr** | **Statws Presennol** | **Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol** | **Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu** |
| G.9 | Ni ellir cysoni gwahaniaeth barn neu safbwyntiau o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru. | • Ni all gwahanol gyrff gwneud penderfyniadau ddod i gytundeb. Buddiannau a blaenoriaethau Awdurdodau Cyfansoddol yn gwrthdaro.<br>•Nid yw'r strwythur llywodraethu yn darparu mecanwaith neu fforwm lle gellir cysoni safbwyntiau a gwahaniaethau.<br>• Nifer y bobl sy'n gwneud pendefyniadau / cynnig barn yn is-optimaidd | Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gallu cytuno ar benderfyniadau allweddol, gan arwain at oediadau, aneffeithlonrwydd, a dieithrwch neu chwalfa rhanddeiliaid. Colled ariannol posibl i asedau a ddelir o fewn y bartneriaeth a/neu risg i enw da. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru / Cyflenwyr a Chynghorwyr | •Lefelau uchel o gyfathrebu rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (a'r Awdurdodau Cyfansoddol)<br>•Set wedi'i godio o amcanion a chredoau cytunedig/unedig PPC<br>•Cyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu, a chyfarfodydd ad hoc os oes eu hangen, i hwyluso'r broses o rannu a chysoni safbwyntiau (er enghraifft drwy gyfarfodydd yr is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol)<br>•Cynghorydd Goruchwylio ar gael i gynnig cyngor ar strwythur llywodraethu<br>•Ymgysylltu â chyrff perthnasol ar ganllawiau llywodraethu da ac arfer gorau<br>•Adolygiad parhaus o'r strwythur llywodraethu<br>•Proses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau ar waith<br>•Proses uwchgyfeirio eglur ar waith i gael cydsyniad os na ellir dod i gytundeb cilyddol | Presennol<br>5 | <br>3 | <br>15 |  | Mae gan y Bartneriaeth fesurau rheoli effeithiol ar waith, fodd bynnag, disgwylir y bydd senarios pellach, yn enwedig o amgylch y pethau sydd i'w cyflawni dan Brosiect yr Wyddfa a allai brofi'r risg hon, felly bydd y sgôr risg yn aros ar 15 tan y cyfarfod adolygu nesaf yn Ch2 2026. | Gweithgor Swyddogion |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Tymor Canolig | | Targed<br>5 | <br>2 | <br>10 | | | Ch2 2026 |
| G.10 | Cyflenwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyflawni eu hymrwymiadau contractiol. | •Diffyg fframwaith monitro cyflenwyr addas.<br>•Cystadleuaeth annigonol ymhlith cyflenwyr.<br>•Cytunwyd ar delerau contractiol anaddas / na ellir eu cyflawni.<br>•Cyfathrebu gwael â chyflenwyr ar ofynion a disgwyliadau Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Gwaith sydd ar y gweill gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddim yn cael ei gwblhau neu'n cael ei oedi. Nid yw gofynion rhanddeiliaid y bartneriaeth yn cael eu diwallu. Mae'r bartneriaeth yn gwneud penderfyniadau amhriodol a allai arwain at golled ariannol, aneffeithlonrwydd, risg i enw da. | Cynghorydd Goruchwylio / Gweithgor Swyddogion | •Cynghorydd Cyfreithiol ar gael i adolygu telerau ac ymrwymiadau contractiol<br>•Cyfarfodydd darparu gwasanaethau rheolaidd yn cael eu cynnal<br>•Ymarferion caffael ac ailbenodi rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau cystadleuaeth<br>•Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llunio contractau sydd â saib neu bwyntiau ymadael naturiol a ffioedd ymadael isel • Mae gan y Bartneriaeth restr fer o gyflenwyr eraill sydd ag enw da, drwy Lotiau Fframwaith Cenedlaethol y CPLlL, a gallai'r cyflenwyr hyn gamu i mewn petai angen.<br>• Mae gan yr Awdurdod Lletya arbenigedd mewn rheoli contract a perthnasau | Presennol<br>4 | <br>2 | <br>8 |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Tymor Canolig | | Targed<br>4 | <br>2 | <br>8 | | | Ch2 2026 |
| G.11 | Cyflenwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â gweithredu penderfyniadau'r bartneriaeth yn brydlon ac yn effeithiol. | •Cyfathrebu gwael gyda chyflenwyr am ofynion a disgwyliadau Partneriaeth Pensiwn Cymru.<br>•Diffyg adnoddau gan gyflenwyr.<br>•Mae gan gyflenwyr perthnasol flaenoriaethau sy'n eu gorlethu a/neu'n gwrthdaro.<br>•Diffyg ymgysylltiad neu bresenoldeb gan gyflenwyr perthnasol.<br>•Nid yw penderfyniadau a wneir yn cael eu gweithredu yn brydlon. | Nid yw gwaith sydd ar y gweill gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei gwblhau neu mae'n cael ei oedi, a allai arwain at golled ariannol neu aneffeithlonrwydd. Nid yw gofynion rhanddeiliaid y bartneriaeth yn cael eu bodloni. | Cynghorydd Goruchwylio / Gweithgor Swyddogion | •Cynhelir cyfarfodydd darparu gwasanaeth rheolaidd i fonitro perfformiad parhaus<br>•Cynhelir ymarferion caffael ac ailbenodi rheolaidd i sicrhau cystadleuaeth<br>•Cynghorydd Goruchwylio dynodedig ar gael<br>•Protocolau ymgysylltu dwys gyda chyflenwyr perthnasol •<br>Mae'r cyfarfod Ymarferwyr PPC misol yn fforwm ar gyfer codi unrhyw bryderon ac wedyn eu huchafu ar lefel y Pŵl<br>• Mae ychwanegiad yr is-grwpiau i drefniadau llywodraethu PPC wedi creu fforymau ychwanegol lle mae gan y Bartneriaeth fwy o amser i herio a dilyn i fyny gyda chyflenwyr | Presennol<br>4 | <br>2 | <br>8 |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion a'r Cynghorydd Goruchwylio |
| | Gweithredol / Ariannol | | | Tymor Canolig | | Targed<br>4 | <br>2 | <br>8 | | | Ch2 2026 |

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu |
| G.12 | Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau contractiol neu'n rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau Gweithredwr oherwydd ymadael â'r farchnad neu gyfyngiadau rheoleiddio. | •Nid oes gan y Gweithredwr adnoddau digonol.<br>•Nid yw'r Gweithredwr yn rhoi systemau adrodd ar berfformiad/risg digonol ar waith.<br>•Nid oes gan y Gweithredwr yr adnoddau/arbenigedd i wneud gwaith monitro rheolwyr, i gynnal negodiadau ffioedd, ac i hwyluso cerbydau a gwasanaethau sefydlu.<br>•Nid yw'r Gweithredwr yn rhoi mesurau cadw cydbwysedd digonol ar waith i sicrhau cydymffurfiad â'r holl reoliadau perthnasol.<br>•Nid yw'r gallu na'r gymeradwyaeth reoleiddio gan y Gweithredwr i ddarparu gwasanaethau Adneuo a Gwarchodaeth (trwy'r Cynllun Contractiol Awdurdodedig).<br>•Monitro annigonol o endidau a benodwyd i weinyddu cronfeydd ac asiantaeth drosglwyddo (Northern Trust).<br>•Mae'r Gweithredwr yn methu â gweithredu rheoli risg priodol, gan gynnwys: polisi, gweithdrefnau a strategaethau lliniaru rheoli risg.<br>•Nid oes gan y Gweithredwr adnoddau digonol i ddarparu gwaith rheoli perthynas a darparu gwasanaeth digonol. | Mae asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru a ddelir yng Nghynllun Contractiol Awdurdodedig y Gweithredwr yn cael eu rhoi mewn perygl. Mae nifer o gontractau'r bartneriaeth yn cael eu torri, gan fod y rhain yn cael eu gorfodi drwy'r Gweithredwr ar hyn o bryd. Nid yw'r bartneriaeth yn gallu gweithio'n effeithlon, nid yw gwaith gofynnol yn cael ei gwblhau, ni ellir rheoli neu lansio is-gronfeydd. | Cynghorydd Goruchwylio / Awdurdod Lletya / Gweithgor Swyddogion / Cynghorydd Cyfreithiol | •Cynghorydd Goruchwylio Gweithredwr dynodedig ar gael<br>•Protocolau ymgysylltu dwys gyda'r Gweithredwr<br>•Fframwaith Goruchwylio Gweithredwr wrthi'n cael ei ddatblygu<br>•Ymgysylltiad â'r farchnad Gweithredwyr ehangach (a chyflenwyr addas eraill) yn cael ei gynnwys yng ngynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru<br>•Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llunio contractau sydd â saib neu bwyntiau ymadael naturiol a ffioedd ymadael isel •<br>Mae PPC wedi sefydlu Cynllun Gwaith Gweithredwr er mwyn monitro'r gwahanol ffrydiau gwaith mewn perthynas â Goruchwylio'r Gweithredwr.<br>• Mae'r pecyn MI diwygiedig ei fonitro'n chwarterol<br>• Mae'r FCA yn cadw rhestr o Weithredwyr ACS eraill a allai gamu i mewn petai Gweithredwr PPC yn gadael y farchnad. | Presennol | | |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | 5 | 2 | 10 | | | |
| | Ariannol / Gweithredol | | | Byrdymor | | Targed | | | | | Ch2 2026 |
| | | | | | | 5 | 2 | 10 | | | |
| G.13 | Data cyfrinachol / masnachol sensitif PPC yn cael ei ryddhau, ei ddwyn neu ei gamleoli. | •Diffyg gweithdrefnau digonol.<br>•Gwybodaeth annigonol o arfer orau<br>•Diffyg systemau addas a datrysiadau TG i hwyluso a chynorthwyo gyda storio a chynnal data cyfrinachol/masnachol sensitif<br>• Camddealltwriaeth a yw darn o wybodaeth yn gyfrinachol / masnachol sensitif<br>• Ddim yn datgan yn glir pa gynulleidfa gaiff weld data cyfrinachol / masnachol sensitif penodol<br>• Methiant i labelu'n glir bod gwybodaeth yn gyfrinachol / masnachol sensitif | Mae PPC yn wynebu colledion ariannol os yw partion allanol eraill yn gweithredu ar ddata na ddylent ei weld na chael mynediad ato. Mae risg hefyd y byddai tor-data fel hyn yn arwain at roi enw drwg i'r Bartneriaeth. | GS/Awdurdodau Cyfansoddol | •Hyfforddiant parhaus<br>•Lefel addas o arbenigedd ar gael gan yr Awdurdod Lletya<br>• PPC yn gofyn ac yn gwirio pa weithdrefnau a mesurau diogelwch sydd gan yr AC mewn lle ar lefel lleol<br>• Bydd PPC yn marcio'n glir dogfennau/e-byst a deunyddiau eraill sy'n cynnwys data cyfrinachol/masnachol sensitif<br>• Wrth ymdrin â data cyfrinachol/masnachol sensitif, caiff dulliau addas, diogel o rannu gwybodaeth eu defnyddio<br>• Mae'r arfer o rannu a dosbarthu data cyfrinachol/masnachol sensitif yn cael ei gyfyngu ym mhob achos, a chaiff ei rannu dim ond os yw hynny'n gwbl angenrheidiol<br>• Mae ymgynghorwyr a darparwyr allanol yn gwybod am y mater hwn a disgwylir iddynt ddilyn gweithdrefnau'r Bartneriaeth ei hun mewn perthynas â'r mater | Presennol | | |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | 5 | 2 | 10 | | | |
| | Ariannol / Enw Da | | | Tymor Canolig | | Targed | | | | | Ch2 2026 |
| | | | | | | 5 | 2 | 10 | | | |

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu |
| G.14 | PPC yn methu ag adnabod a chymryd mesurau i gywiro camymarfer | •Methiant i annog diwylliant o fod yn agored, lle mae personel yn teimlo'n gyfforddus yn tynnu sylw at unrhyw achosion posib o gamymarfer<br>•Peidio bod â mecanweithiau addas mewn lle i amddiffyn unrhyw aelod o staff, sy'n adrodd am broblem bosib, rhag erledigaeth neu erlyn yn annheg<br>•Anallu i roi Polisi Canu'r Gloch effeithiol ar waith, a chadw at y polisi.<br>•Diffyg gweithdrefnau digonol<br>•Gwybodaeth annigonol o arfer orau<br>•Mecanweithiau cyfathrebu gwael neu annigonol<br>•Peidio rhoi digon o amser neu adnoddau i ymchwilio i gamymarfer posib | Mae PPC yn cael ei heffeithio'n negyddol gan gamymarfer a allai gynnwys twyll, llygredd, gweithgareddau anghyfreithlon neu ymddygiad anfoesol. Gallai'r camymarfer arwain at golledion ariannol, dirwyon, achos cyfreithiol neu effeithiau negyddol ar enw da. | Personel/Cyflenwyr ac Ymgynghorwyr PPC | • Mae'r Bartneriaeth wedi mabwysiadu fframwaith llywodraethu sydd â nifer o wiriadau a balansau a ddyluniwyd i gyfyngu'r potensial i gamymarfer ddigwydd<br>• Mae sawl dull cyfathrebu ar waith o fewn y Bartneriaeth, gyda'r bwriad o annog rhannu gwybodaeth a'r gallu i dynnu sylw at unrhyw bryderon posib<br>• Mae swyddog monitro yn yr Awdurdod Lletya<br>• Mae gan PPC Bolisi Gwrthdaro Buddiannau • Mae gan PPC Bolisi Canu'r Gloch yn lle | Presennol<br>5 | Presennol<br>1 | Presennol<br>5 |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | Ariannol / Enw Da | | | Byrdymor | | Targed<br>5 | Targed<br>1 | Targed<br>5 | | | Ch2 2026 |
| G.15 | Nid yw PPC yn barod ar gyfer deilliannau unrhyw ymgynghoriad neu newid rheoleiddiol. | • Methu bod yn ymwybodol o ymgynghoriadau sydd ar y gweill neu newid rheoleiddiol<br>• Methu adnabod deilliannau a goblygiadau posib<br>• Methu trosoli perthnasau presennol i 'lobïo' y llywodraeth ynghylch newidiadau arfaethedig | Mae effaith negyddol ar y PPC yn sgil deilliannau unrhyw ymgynghoriad llywodraeth neu newid rheoleiddiol | GS/Awdurdodau Cyfansoddol/ Chynghorwyr | • Ymateb i ymgynghoriadau, ceisio cyngor lle bo angen<br>• Ystyried deilliannau posib yr ymgynghoriad a chynnal camau paratoadol<br>• Cynnal ymgysylltu gydag unigolion a sefydliadau allweddol i sicrhau y cânt wybod yn gynnar am unrhyw newid<br>• Cynnal ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru, yn enwedig ynghylch ymgynghoriadau ar bŵlio a chysylltiedig | Presennol<br>5 | Presennol<br>2 | Presennol<br>10 |  | Yn dilyn y newid Llywodraeth o ganlyniad i'r etholiad cyffredinol, a'r galw am dystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth yr ymgynghoriad 'Ffit ar gyfer y dyfodol' ym mis Rhagfyr 2024. Cyflwynodd PPC ymateb ar 16 Ionawr 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi gofynion newydd ar gyfer pŵls asedau. Cyn canlyniad yr ymgynghoriad a chyn i unrhyw reoliadau a phrif ddeddfwriaeth gael eu cyhoeddi, mae PPC wedi ymateb yn rhagweithiol ac yn cymryd camau i gwrdd â'r gofynion newydd hyn er mwyn paratoi at y canlyniad. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys sefydlu 'Prosiect Yr Wyddfa', gyda'r amcanion o fodloni'r gofynion newydd o ran cronni asedau.<br>O ganlyniad i ymateb PPC i'r ymgynghoriad hwn, mae wedi profi bod y rheolaethau risg sydd ar waith wedi sicrhau bod y Bartneriaeth wedi paratoi'n dda ar gyfer canlyniad yr ymgynghoriad a newid rheoleiddio.<br>Mae'r sgôr tebygolrwydd targed wedi cynyddu o 1 i 2. Mae hyn oherwydd y ffaith bod disgwyl mwy o newid rheoleiddiol i gynlluniau CPLlL yn y dyfodol. Pan sgoriwyd y risg hon i ddechrau, ystyriwyd bod polisi'r Llywodraeth ganolog ar gyfer y CPLlL yn fwy sefydlog a rhagweladwy. Oherwydd arwyddocâd Prosiect yr Wyddfa, a'r amserlenni tynn ar gyfer ei gyflawni, mae risg newydd wedi'i sefydlu ar gyfer y gwaith hwn (risg G16).<br>Bydd y sgôr risg yn parhau i gael ei fonitro a'i drafod yn rheolaidd. | Gweithgor Swyddogion |
| | Ariannol / Enw Da | | | Hirdymor | | Targed<br>5 | Targed<br>2 | Targed<br>10 | | | Ch2 2026 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G.16 | Nid yw Prosiect yr Wyddfa yn cwrdd â'r amserlenni a'r gallu cyflawni a nodir yn ymgynghoriad y Llywodraeth ac achos busnes dilynol PPC. | • Methiant i sefydlu cwmni awdurdodedig FCA (IM Co.) erbyn 1 Ebrill 2026<br>• Methiant i dderbyn awdurdodiad FCA<br>• Methiant i recriwtio unigolion addas i weithredu rolau SMF angenrheidiol<br>• Methiant i sefydlu'r systemau a'r strwythur gweithredu i ddarparu gwasanaethau i Awdurdodau Cyfansoddol PPC | Nid yw'r PPC yn bodloni gofynion y llywodraeth erbyn 1 Ebrill 2026 a allai arwain at weithredu gan y Llywodraeth nad yw'n yn cyd-fynd â chynlluniau ac amcanion y dyfodol PPC. | GS/Awdurdodau Cyfansoddol/ Chynghorwyr | • Ymgysylltu parhaus â'r Llywodraeth<br>• Strwythur llywodraethu prosiectau gan gynnwys Grŵp Llywio wedi'i sefydlu<br>• Cynllun prosiect manwl gyda cherrig milltir, tasgau, dyddiadau a pherchnogion allweddol wedi'u sefydlu a'u monitro yn rheolaidd<br>• Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i ddatblygu a'i fonitro'n rheolaidd<br>• Prosesau llywodraethu a chymeradwyo yn yr Awdurdod Cyfansoddiadol wedi'i sefydlu (gyda mewnbwn gan Gynghorwyr Cyfreithiol)<br>• Cofrestr risg prosiect wedi'i sefydlu a'i monitro yn rheolaidd | **Presennol** | | |  | Cyflwynwyd achos busnes i'r Llywodraeth ar 28 Chwefror 2025. Cadarnhawyd mewn llythyr gan y Llywodraeth ar 9 Ebrill 2025 ei bod yn derbyn y ffordd ymlaen a ffafrir gan y Bartneriaeth, sef adeiladu Cwmni a reoleiddir gan yr FCA ac aros fel Cronfa Gymreig ar wahân. Felly, mae cyflawni Prosiect yr Wyddfa yn parhau i gyrraedd yr amcan hwn.<br><br>Mae'r amserlenni a chyfaint y gweithgareddau sydd i'w cwblhau er mwyn dod yn gwbl weithredol fel Cwmni a reoleiddir gan yr FCA erbyn 1 Ebrill 2026 yn parhau i fod yn heriol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r rheolaethau risg presennol, mae'r Bartneriaeth yn gyfforddus bod prosiect yr Wyddfa yn mynd rhagddo yn unol â'r cynllun prosiect a'i fod 'ar y trywydd iawn'. Mae'r sgôr tebygolrwydd presennol o 3, uwchlaw'r targed o 2, oherwydd y nifer o gerrig milltir critigol y mae angen eu bodloni i gyrraedd dyddiad gorffen y prosiect.<br><br>Mae cofrestr risg ar wahân yn bodoli ar gyfer Prosiect yr Wyddfa ac mae'n cael ei fonitro'n rheolaidd. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | **5** | **3** | **15** | | | |
| | Ariannol / Enw Da | | | Tymor Canolig | | **Targed** | | | | | Ch2 2026 |
| | | | | | | **5** | **2** | **10** | | | |

## Risg Hyfforddiant ac Adnoddau

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu |
| T.1 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chynnal a meithrin arbenigedd a gwybodaeth briodol ymhlith personél perthnasol. | •Bwlch yng ngwybodaeth personél newydd neu bresennol.<br>•Rhaglen hyfforddi anfoddhaol.<br>•Presenoldeb gwael mewn digwyddiadau hyfforddi. •Y potensial i'r risg gynyddu yn ystod cyfnod etholiadau lleol. | Bylchau gwybodaeth yn arwain at gamau aneffeithiol, analluedd i gyflawni cyfrifoldebau, a gwneud penderfyniadau amhriodol. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru | •Sicrhau bod hyfforddiant digonol yn cael ei ddarparu<br>•Cynnal mecanwaith ar gyfer cael mynediad at ofynion hyfforddi<br>•Sicrhau bod personél newydd yn derbyn hyfforddiant priodol ar ddechrau eu dyletswyddau (er enghraifft, hyfforddiant anwytho sydd bellach mewn lle)<br>•Cyhoeddi Cynllun Hyfforddi Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru<br>•Rhoi gofynion hyfforddi ar gontract allanol i arbenigwyr pan fo angen<br>•Rhoi tasgau ar gontract allanol i gynghorwyr arbenigol pan na ellir sicrhau'r lefel ofynnol o arbenigedd yn fewnol •Presenoldeb aelodau'r CBLl i'w gofnodi ymhob sesiwn hyfforddi PPC | Presennol | | |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | 3 | 1 | 3 | | | |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Tymor Canolig | | Targed | | | | | Ch3 2026 |
| | | | | | | 3 | 1 | 3 | | | |
| T.2 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol neu anamserol. | •Diffyg adnoddau.<br>•Mae gan bersonél perthnasol Partneriaeth Pensiwn Cymru flaenoriaethau sy'n eu gorlethu a/neu'n gwrthdaro.<br>•Diffyg ymgysylltu neu bresenoldeb gan bersonél perthnasol.<br>•Nid yw penderfyniadau a wneir yn cael eu gweithredu yn fewnol yn brydlon. | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol. Oediadau cyn gwneud penderfyniadau yn lleihau effeithiolrwydd penderfyniadau a/neu yn arwain at effaith negyddol. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru | •Caiff penderfyniadau a wneir eu nodi a'u neilltuo i bersonél perthnasol<br>•Caiff presenoldeb mewn cyfarfodydd a'r rhai nad ydynt yn bresennol eu nodi ar ddechrau pob cyfarfod<br>•Adolygiad blynyddol o ofynion o ran adnoddau<br>•Defnyddio cyflenwyr allanol pan fydd angen adnoddau ychwanegol<br>•Cynllun Busnes a Chynllun Gwaith ar waith i flaenoriaethu penderfyniadau a gweithgareddau allweddol | Presennol | | |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Tymor Canolig | | Targed | | | | | Ch3 2026 |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |
| T.3 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â denu, penodi a chadw personél, cyflenwyr a darparwyr. | •Caiff penderfyniadau amhriodol eu gwneud oherwydd diffyg mewnbwn a safbwyntiau gan bersonél perthnasol, cynghorwyr a/neu gyflenwyr.<br>•Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol oherwydd diffyg gwybodaeth/cyngor.<br>•Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru adnoddau annigonol i wneud ei gwaith a cyflawni ei dyletswydd i randdeiliaid. | Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gallu bodloni gofynion ei rhanddeiliaid allweddol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol a allai arwain at golled ariannol, aneffeithlonrwydd, risg i enw da. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru | •Nodi gofynion Partneriaeth Pensiwn Cymru yn brydlon<br>•Os caiff gofyniad o ran adnoddau ei nodi, yna caiff yr ymarferion adnoddau/caffael perthnasol eu cyflawni<br>•Defnydd o'r Fframwaith Cenedlaethol<br>•Ymgysylltiad rheolaidd â'r farchnad i sicrhau bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dal i fod yn gyflogwr/cleient cystadleuol a deniadol | Presennol | | |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Tymor Canolig | | Targed | | | | | Ch3 2026 |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |
| T.4 | Risg Personél Allweddol yn yr Awdurdod sy'n Lletya | •Pobl benodol yn gadael yr Awdurdod sy'n Lletya.<br>•Awdurdod sy'n Lletya yn methu â gweithredu cynlluniau olyniaeth effeithiol.<br>•Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Awdurdod sy'n Lletya wedi'u crynodi'n rhy ddwys ymhlith corff cyfyngedig o unigolion. | Nid yw'r Awdurdod sy'n Lletya yn gallu darparu cymorth i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Ni chymerir unrhyw gamau neu cymerir camau aneffeithiol, gan arwain at golled ariannol neu aneffeithlonrwydd. Caiff gwybodaeth allweddol a chysylltiadau presennol eu colli. | Gweithgor Swyddogion | •Sicrhau bod hyfforddiant a chynllunio olyniaeth digonol yn digwydd<br>•Cynnal mecanwaith ar gyfer cael mynediad at ofynion hyfforddi ymhlith personél presennol yr Awdurdod sy'n Lletya<br>•Sicrhau bod personél newydd yn derbyn hyfforddiant priodol ar ddechrau eu dyletswyddau<br>• Mae personel y Gweithgor Swyddogion a Hymans yn fedrus i'r pwynt y gallent gamu i mewn i lenwi bylchau tymor byr mewn sgiliau.<br>• Mae ffeilio, polisïau a phrosesau cadarn mewn lle fel bod modd cymryd drosodd yn gyflym ac yn effeithlon. | Presennol | | |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | 5 | 2 | 10 | | | |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Byrdymor | | Targed | | | | | Ch3 2026 |
| | | | | | | 5 | 2 | 10 | | | |

## Risg Cyfathrebu

| Manylion y Risg | | | | | Sefyllfa Bresennol | Sgoriau | | | Rheoli a Monitro | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg a Natur y Risg | Achos y Risg | Goblygiadau'r Risg | Y Sawl sy'n Gyfrifol am y Risg a Chyfnod yr Effaith | Rheolaethau Risg Presennol | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Sgôr | Statws Presennol | Adroddiad ar Gynnydd / Sylwadau a Gamau Gofynnol | Parti Cyfrifol a Dyddiad Adolygu |
| C.1 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyfathrebu ac ymgysylltu yn effeithiol â rhanddeiliaid mewnol. | • Mae strategaethau cyfathrebu mewnol Partneriaeth Pensiwn Cymru yn aneffeithiol neu nid oes cydymffurfiad â nhw. | Caiff penderfyniadau amhriodol eu gwneud oherwydd diffyg mewnbwn a safbwyntiau gan randdeiliaid allweddol (e.e. safbwyntiau a gofynion Awdurdodau Cyfansoddol). Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol a allai arwain at aneffeithlonrwydd, risg i enw da, dieithrwch, a cholli ymgysylltiad gan randdeiliaid allweddol. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru | • Mae polisi cyfathrebu PPC yn cynnwys cyfathrebu mewnol, a chaiff ei adolygu yn aml<br>•Defnyddio porth dogfennau at ddefnyddiau mewnol<br>•Defnyddio sianeli cyfathrebu lluosog<br>•Ymgysylltiad rheolaidd â rhanddeiliaid mewnol (e.e. cyfarfodydd, galwadau dwywaith yr wythnos ac e-byst • Defnyddio is-grwpiau'n rheolaidd lle bo'r angen | Presennol | | |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |
| | Enw Da / Gweithredol | | | Tymor Canolig | | Targed | | | | | Ch3 2026 |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |
| C.2 | Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyfathrebu ac ymgysylltu yn effeithiol â rhanddeiliaid allanol. | •Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu â chyfleu ei chredoau a'i hamcanion i bartïon allanol.<br>•Nid yw Partneriaeth Pensiwn Cymru yn agored nac yn weithredol o ran ceisio ymgysylltiad â phartïon allanol.<br>•Nid yw Polisi Cyfathrebu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn effeithiol neu'n ddigon pellgyrhaeddol.<br>•Nid oes gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru adnoddau digonol i gyflawni'r gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu angenrheidiol. | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn methu ag ymgorffori canllawiau a chyngor i bartïon allanol perthnasol. Mae tybiaeth partïon allanol o Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn ddiystyriaeth ac yn niweidiol. Effaith negyddol ar enw da Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru | •Llunio polisi cyfathrebu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru sy'n cynnwys cyfathrebu allanol a gaiff ei adolygu yn aml<br>•Gwefan Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei chynnal a'i chadw'n rheolaidd<br>•Defnyddio sianeli cyfathrebu allanol a datganiadau i'r wasg<br>•Ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol (e.e. MHCLG, LGA, Llywodraeth Cymru, CLILC, Bwrdd Cynghori'r Cynllun, Rheoleiddwyr Pensiynau a presenoldeb mewn Cynadleddau)<br>•Diweddariad ac adroddiad blynyddol PPC yn cael eu cyhoeddi | Presennol | | |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |
| | Enw Da / Gweithredol | | | Tymor Canolig | | Targed | | | | | Ch3 2026 |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |
| C.3 | Nid yw cyngor a gwybodaeth berthnasol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau. | •Nid yw cyngor a gwybodaeth yn cael eu targedu'n briodol at y gynulleidfa berthnasol.<br>•Nid yw fformat a chyflwyniad cyngor a gwybodaeth wedi'u dylunio'n dda ar gyfer y gynulleidfa.<br>•Nid yw'r gynulleidfa a fwriedir a/neu gwmpas cyngor a gwybodaeth yn eglur.<br>•Rhoddir amser neu adnoddau annigonol i lunio a/neu ystyried cyngor/gwybodaeth. | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwneud penderfyniadau amhriodol oherwydd diffyg gwybodaeth a/neu gyngor. Mae penderfyniadau amhriodol yn arwain at aneffeithlonrwydd / risg ariannol a risg i enw da. | Personél Partneriaeth Pensiwn Cymru / Y Gweithredwr / Rheolwr Buddsoddi / Cynghorydd Goruchwylio / Cynghorwyr a Chyflenwyr Eraill | •Caiff personél Partneriaeth Pensiwn Cymru, a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn arbennig, eu hannog yn weithredol i gynnig adborth ar berthnasedd a chyflwyniad cyngor a gwybodaeth<br>•Caiff cyngor a gwybodaeth eu cyflwyno mewn o leiaf dau fformat fel rheol (llafar ac ysgrifenedig)<br>•Sicrheir bod cyn lleied â phosibl o ddiweddariadau llafar yn unig<br>•Rhoddir amser a chyfleoedd digonol i ofyn cwestiynau egluro<br>•Caiff cyngor neu wybodaeth ddrafft eu rhannu gyda'r Awdurdod sy'n Lletya fel rheol, ar gyfer archwiliad ymwybyddiaeth, cyn eu rhannu neu eu cyflwyno<br>•Mae strwythur llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn galluogi archwiliadau cadw cydbwysedd lluosog cyn gwneud penderfyniadau | Presennol | | |  | Amh. | Gweithgor Swyddogion |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |
| | Gweithredol / Enw Da / Ariannol | | | Hirdymor | | Targed | | | | | Ch3 2026 |
| | | | | | | 4 | 1 | 4 | | | |